**Pwyllgor Newid Hinsawdd, yr Amgylchedd a Seilwaith**
—
**Climate Change, Environment, and Infrastructure Committee**

**Senedd Cymru**
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1SN
SeneddHinsawdd@senedd.cymru
senedd.cymru/SeneddHinsawdd
0300 200 6565
—
**Welsh Parliament**
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1SN
SeneddClimate@senedd.wales
senedd.wales/SeneddClimate
0300 200 6565

Julie James AS
Y Gweinidog Newid Hinsawdd

14 Mawrth 2022

Annwyl Weinidog,

Datgarboneiddio tai

Wrth bennu ei flaenoriaethau ar gyfer y Chweched Senedd, cytunodd y Pwyllgor i gynnal ymchwiliad aml-gam ar ddatgarboneiddio tai yng Nghymru.

Bydd cam cyntaf yr ymchwiliad yn dechrau yn nhymor yr haf pan fydd y Pwyllgor yn cynnal sesiwn dystiolaeth gyda rhanddeiliaid. Bwriad y cam cyntaf hwn yw galluogi'r Pwyllgor i asesu'r cynnydd a wnaed hyd yma cyn penderfynu ar y meysydd yr hoffai ymchwilio iddynt yn fanwl fel rhan o raglen waith tymor hwy.

Er mwyn helpu i lywio cam cyntaf yr ymchwiliad, byddem yn ddiolchgar pe gallech:

- roi’r wybodaeth ddiweddaraf am y cynnydd a wnaed gan Lywodraeth Cymru o ran bwrw ymlaen â phob un o’r argymhellion a wnaed gan y Grŵp Cynghori ar Ddatgarboneiddio Cartrefi yng Nghymru yn ei adroddiad, Cartrefi Gwell, Cymru Well, Byd Gwell, a

- rhannu gyda’r Pwyllgor ymateb Llywodraeth Cymru i adroddiad Comisiynydd Cenedlaethau’r Dyfodol, Cartrefi addas ar gyfer y dyfodol: Yr Her Ôl-osod.

Byddem hefyd yn falch o dderbyn unrhyw wybodaeth arall a/neu ddiweddariadau a allai fod yn ddefnyddiol i lywio ein gwaith yn eich barn chi.

Byddwn yn ddiolchgar am ymateb erbyn dydd Gwener 8 Ebrill 2022

Yn gywir,



**Llyr Gruffydd AS,**
Cadeirydd, Pwyllgor Newid Hinsawdd, yr Amgylchedd a Seilwaith

Croesewir gohebiaeth yn Gymraeg neu Saesneg.

We welcome correspondence in Welsh or English.